HEDDLU GWENT POLICE

ADRODDIAD CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL

ANNUAL EQUALITY REPORT

2023 - 2024

DIBEN 4

Y DDEDDF CYDRADDOLDEB 2010 4

CEFNDIR 5

PERFFORMIAD 6

AMCAN UN | CEFNOGI POBL AGORED I NIWED 7

CYNNYDD A WNAED YN ERBYN AMCAN UN YN 2023-24 7

MEYSYDD Y NODWYD Y MAE ANGEN EU GWELLA 8

AMCAN DAU | CYFREITHLONDEB A THEGWCH 10

CYNNYDD A WNAED YN ERBYN AMCAN DAU YN 2023-24 10

MEYSYDD Y NODWYD Y MAE ANGEN EU GWELLA 12

AMCAN TRI | MYNEDIAD, YMGYSYLLTU, A CHYDLYNIANT 14

CYNNYDD A WNAED YN ERBYN AMCAN TRI YN 2023-24: 14

MEYSYDD Y NODWYD Y MAE ANGEN EU GWELLA 16

AMCAN PEDWAR | CREU GWEITHLU CYNRYCHIOLIADOL A HYRWYDDO TEGWCH 17

CYNNYDD A WNAED YN ERBYN AMCAN TRI YN 2023-24: 17

Gweithlu Cynrychioliadol 17

Lles a chymorth 19

Datblygu polisïau 21

Hyfforddiant 21

MEYSYDD Y NODWYD Y MAE ANGEN EU GWELLA 22

CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2024 | 2028 23

YSTYRIAETHAU 25

YSTYRIAETHAU ARIANNOL 25

YSTYRIAETHAU O RAN PERSONÉL 25

YSTYRIAETHAU CYFREITHIOL 25

YSTYRIAETHAU CYDRADDOLDEB A HAWLIAU DYNOL 25

RISG 26

BUDD Y CYHOEDD 26

MANYLION YR ADRODDIAD 27

AWDUR YR ADRODDIAD 27

SWYDDOG HEDDLU SY'N ARWAIN 27

CYMERADWYAETH Y BWRDD LLYWODRAETHU A'R PRIF SWYDDOG 27

DIBEN

Mae adroddiad blynyddol yn chwarae rôl hanfodol yn sbarduno newid sefydliadol, hybu tryloywder, a meithrin diwylliant o gydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant. Mae'n galluogi sefydliadau i fesur eu cynnydd, adnabod meysydd y mae angen eu gwella, cydnabod cyflawniadau, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar eu siwrnai tuag at greu amgylchedd mwy teg a chynhwysol.

Pwrpas yr adroddiad cydraddoldeb blynyddol hwn yw rhoi golwg gyffredinol ar gynnydd ac ymdrechion Heddlu Gwent i hybu cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant o fewn ei weithrediadau a'i weithlu. Mae'n ein galluogi ni i fod yn dryloyw ac yn atebol trwy ddogfennu ymrwymiad y sefydliad i'r egwyddorion hyn ac olrhain perfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae cyhoeddi'r adroddiad yma'n caniatáu i Heddlu Gwent gydymffurfio â'n cyfrifoldeb o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus trwy ddangos ein cynnydd yn erbyn ein hamcanion cydraddoldeb.

Yn yr adroddiad yma, caiff cynnydd a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24 yn erbyn pob un o amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd 2020-2024 ei drafod, yn unol â'r wybodaeth ddiweddaraf a gyflwynwyd i'r cyfarfod Cyfreithlondeb ac unrhyw Fyrddau perthnasol eraill yn ystod tri mis olaf 2023-24. Mae'r adroddiad yn cyflwyno uchafbwyntiau'r cynnydd a wnaed ym mhob maes amcan, ynghyd â meysydd y nodwyd y bod angen eu gwella. Bydd y meysydd y mae angen eu gwella'n cael eu cynnwys yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 newydd (gweler tudalen 17 i gael crynodeb o'r ddogfen hon).

Y DDEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ddarn o ddeddfwriaeth gynhwysfawr yn y Deyrnas Unedig sy'n ceisio amddiffyn unigolion rhag gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb ar draws gwahanol nodweddion. Mae'n disodli ac yn cyfnerthu cyfreithiau gwrth-wahaniaethu blaenorol i ddarparu dull gweithredu mwy unedig a chyson.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ymdrin â gwahaniaethu ar sail naw nodwedd warchodedig, sef oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhywedd, a chyfeiriadedd rhywiol. Mae'n gwahardd gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol, aflonyddu, a thriniaeth annheg sy'n gysylltiedig â'r nodweddion hyn.

Mae'r Ddeddf yn seiliedig ar dair prif egwyddor: cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Ei nod yw dileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal, a meithrin perthnasau da rhwng unigolion â gwahanol nodweddion gwarchodedig ac unigolion heb y nodweddion hynny.

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cyd-fynd â'r Ddeddf Cydraddoldeb, ac yn gofyn bod cyrff cyhoeddus a sefydliadau penodol eraill yn mynd ati'n weithredol i hybu cydraddoldeb a dileu gwahaniaethu. Mae'n golygu cynnal asesiadau o effaith ar gydraddoldeb, pennu amcanion cydraddoldeb, a chyhoeddi gwybodaeth yn gyhoeddus, fel yr adroddiad cydraddoldeb blynyddol yma.



CEFNDIR

Ym mis Hydref 2020 cytunodd Heddlu Gwent ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd mewn partneriaeth â Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Roedd yn amlinellu ymrwymiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl i sicrhau bod parch at gydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau dynol yn sail i bopeth mae Heddlu Gwent yn ei wneud. Roedd y cynllun yn weithredol rhwng 2020 a 2024.

Nod y cynllun oedd cyflawni'r pedwar canlyniad cydraddoldeb strategol canlynol ac roedd cynllun tactegol yn gysylltiedig ag ef er mwyn helpu i'w gyflawni.

Rhoi Cymorth i Bobl Agored i Niwed: Ymchwilio i gyfiawnder a sicrhau cyfiawnder am droseddau sy'n cael yr effaith fwyaf ar bobl agored i niwed, gan sicrhau cymorth effeithiol i ddioddefwyr.

Cyfreithlondeb a Thegwch: Sicrhau bod Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd yn cyflawni eu gweithgareddau mewn ffordd deg ac yn anwahaniaethol ac yn meithrin cysylltiadau cadarnhaol rhwng cymunedau a phlismona.

Mynediad, Ymgysylltu a Chydlyniant: Sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir gan Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd yn ymateb i safbwyntiau, profiadau ac anghenion pobl sy'n dweud bod ganddynt nodweddion gwarchodedig, a bod y gwaith a wnawn yn hybu cynhwysiant a chydlyniant.

Creu Gweithlu Cynrychioliadol a Hyrwyddo Tegwch: Gweithio i gael gweithlu cynrychioliadol a diwylliant gweithle cynhwysol, a sicrhau bod pawb sy'n gweithio i Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd yn cael eu trin yn deg a heb wahaniaethu

PERFFORMIAD

Roedd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd, rhan graidd o'r ddarpariaeth ledled Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd, yn cael ei lywodraethu trwy gyfarfod Cyfreithlondeb yr heddlu.

Roedd perfformiad yr heddlu ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023-2024 fel a ganlyn:[1]

80% | 94 MESUR	19.5% | 23 MESUR	<1% | 1 MESUR
Mesurau naill ai wedi'u darparu neu'n cael eu rheoli'n gyson trwy swyddogaethau busnes fel arfer	Mesurau'n parhau i gael eu datblygu gyda darpariaeth arfaethedig	Mesurau heb eu cyflwyno eto
Cynnydd 3%	**Cynnydd 7%**	**Cynhaliwyd**

CYFANSWM Y MESURAU A ASESWYD: 118 (4 NEWYDD)

Gan fod pedwar mesur newydd wedi cael eu cyflwyno yn 2023-24, mae cyfanswm y mesurau a aseswyd yn wahanol, gan hynny dylid cadw'r rhain mewn cof wrth ystyried newidiadau canran.

[1]Data cywir yng nghyfarfod Cyfreithlondeb terfynol 6 Chwefror 2024

AMCAN UN | CEFNOGI POBL AGORED I NIWED

22 MESUR	8 MESUR	0 MESUR
Mesurau naill ai wedi'u darparu neu'n cael eu rheoli'n gyson trwy swyddogaethau busnes fel arfer	Mesurau'n parhau i gael eu datblygu gyda darpariaeth arfaethedig	Mesurau heb eu cyflwyno eto

Mae'r amcan hwn yn canolbwyntio ar sut mae Heddlu Gwent yn cefnogi grwpiau agored i niwed ledled Gwent ac yn gweithio gyda phartneriaid yn y meysydd canlynol:

- Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)
- Trosedd casineb ac aflonyddu cysylltiedig ag anabledd
- Ymyrraeth ac atal cynnar
- Cefnogi dioddefwyr
- Cam-fanteisio'n droseddol ar blant a phobl eraill bregus
- Caethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl
- Twyll a seiberdrosedd
- Troseddau yn erbyn pobl hŷn

CYNNYDD A WNAED YN ERBYN AMCAN UN YN 2023-24

Mae data cysylltiedig â'r meysydd uchod yn cael eu cyflwyno mewn cyfarfodydd Bregusrwydd misol a'r Bwrdd VAWG (Trais yn erbyn Menywod a Merched), Bregusrwydd a Throsedd Difrifol a Threfnedig, gan alluogi craffu ar y data o fewn ein proses lywodraethu.

Mae cynnydd yn y maes VAWDASV (Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol) wedi bod yn gadarnhaol, ac ymysg yr uchafbwyntiau mae gorffen y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar y Cyd ym mis Ebrill 2023 a'r adolygiad rheolaidd o gynllun gwella chwe cholofn Heddlu Gwent i fynd i'r afael â threisio a thrais rhywiol o dan y cynllun cenedlaethol i wella ymchwiliadau i dreisio, Ymgyrch Soteria[2].

Yn 2023-24, gwellodd Heddlu Gwent ein cyfradd ddatrys ar gyfer troseddau cam-drin domestig a throseddau treisio, a oedd yn arbennig o gadarnhaol o ystyried y cynnydd yn nifer y troseddau cam-drin domestig a gofnodwyd.

Ar y cyfan, roedd gostyngiad yn nifer y troseddau casineb a gofnodwyd yn 2023-24 o gymharu â 2022-23. Cafwyd gostyngiad yn nifer y troseddau casineb trawsffobig a

[2] Operation Soteria – Transforming the Investigation of Rape (npcc.police.uk)

homoffobig a gofnodwyd. Serch hynny, cafwyd cynnydd yn nifer y troseddau casineb cysylltiedig â hil, crefydd ac anabledd. Gwellodd y gyfradd ddatrys ar gyfer troseddau casineb bron i 6%, sy'n gam cadarnhaol iawn.

Er gwaethaf y cynnydd yma, rydym yn cydnabod bod troseddau casineb yn peri pryder i'n cymunedau amrywiol ac mae gennym ni nifer o ffyrdd y gallwn sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu cefnogi'n iawn a bod troseddau casineb yn cael eu hymchwilio'n drwyadl.

Mae'r Uned Gofal Dioddefwyr yn cynnig gwasanaeth uwch i ddioddefwyr trosedd, gan gynnwys dioddefwyr troseddau casineb, gan gyfeirio dioddefwyr at Cymorth i Ddioddefwyr neu un o'r darparwyr arbenigol o fewn y gwasanaeth Connect Gwent (er enghraifft gall ein partner Umbrella Cymru ddarparu cwnsela a chyngor gofal iechyd neu lety i bobl LHDTC+).

Mae goruchwylwyr yn craffu ar droseddau casineb mewn adolygiadau ymchwiliol rheolaidd ac mae uwch swyddogion yn adolygu tueddiadau troseddau casineb mewn cyfarfodydd Bregusrwydd misol. Mae Heddlu Gwent hefyd yn hysbysu Bwrdd Troseddau Casineb a Thensiynau Cymunedol Llywodraeth Cymru am ein ffigyrau troseddau casineb bob tri mis, lle mae arweinwyr troseddau casineb o bedwar heddlu Cymru'n bresennol yn ogystal â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, Cymorth i Ddioddefwyr a chynrychiolwyr o wahanol grwpiau sydd â phrofiad uniongyrchol o droseddau casineb.

Yn rhan o'r Tasglu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol a Bwrdd Troseddau Casineb a Thensiynau Cymunedol Llywodraeth Cymru, mae gwaith partner gyda chydweithwyr yn y sector cyfiawnder troseddol ehangach wedi ein helpu ni i ddeall profiadau uniongyrchol pobl o droseddau casineb ar draws gwahanol nodweddion gwarchodedig yn well. Er enghraifft, aeth Heddlu Gwent a chydweithwyr o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent i fforwm ar gyfer pobl anabl yn Nhorfaen, lle rhannodd y bobl a oedd yn bresennol wybodaeth gyda ni am y cynnydd mewn troseddau casineb roeddent wedi ei ddioddef yn dilyn rhethreg ar y cyfryngau yn erbyn hawlwyr budd-daliadau.

Roedd gwaith partner hefyd yn fuddiol wrth i ni fynd i'r afael â throseddau yn erbyn pobl hŷn a chymryd camau yn erbyn twyll a seiberdrosedd. Er enghraifft, mae'r tîm seiberdrosedd wedi ymgysylltu ag ysgolion a grwpiau cymunedol o amryw o oedrannau a chefndiroedd, gan rannu gwybodaeth am sut i gadw'n ddiogel ar-lein ac osgoi lladrad ariannol a lladrad hunaniaeth.

Caiff manylion pobl ar goll risg uchel, gan gynnwys plant mewn perygl rhag camdriniaeth rywiol, eu cofnodi yn y ddogfen Cyfarfod Rheoli Dyddiol (Daily Management Meeting (DMM)) ac maent yn cael sylw yn ddyddiol gan uwch swyddogion yn y DMM Aur.

MEYSYDD Y NODWYD Y MAE ANGEN EU GWELLA

Wrth symud ymlaen i 2024-25, bydd y Panel Craffu ar Droseddau Casineb a gynhaliwyd bob tri mis yn cael ei ail sefydlu. Bu'r Panel yn segur yn ystod cyfnod o newid yn yr arweinwyr gweithredol a strategol troseddau casineb. Bydd y panel yn cynnwys aelodau o'r Grŵp Cynghori Annibynnol a bydd yn sicrhau goruchwyliaeth annibynnol o'n tueddiadau troseddau casineb a'r broses ymchwiliol.

Mae gwaith parhaus yn cael ei wneud o dan y Glasbrint a Chynllun Gweithredu VAWDASV i wella dealltwriaeth o broblemau penodol mae pobl hŷn yn eu hwynebu ac i chwalu rhwystrau i riportio troseddau a chael y gefnogaeth briodol.

Er mwyn gwella ein perfformiad o ran ymyrryd ac atal trosedd yn gynnar, mae'n rhaid i ni sicrhau bod data am nodweddion gwarchodedig dioddefwyr troseddau'n cael eu cofnodi'n gywir, i'n galluogi ni i fesur ble mae angen gwelliannau posibl a datblygu strategaethau ar gyfer ymyrryd yn gynnar i bobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig. Mae Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu wedi bod yn datblygu canllawiau i heddluoedd yn y maes yma i amlinellu arfer da, ac mae'r tîm Llywodraethu a Sicrwydd yn arwain y gwaith o roi'r rhain ar waith yn Heddlu Gwent.

AMCAN DAU | CYFREITHLONDEB A THEGWCH

20 MESUR	6 MESUR	0 MESUR
Mesurau naill ai wedi'u darparu neu'n cael eu rheoli'n gyson trwy swyddogaethau busnes fel arfer	Mesurau'n parhau i gael eu datblygu gyda darpariaeth arfaethedig	Mesurau heb eu cyflwyno eto

Nod yr amcan yma yw sicrhau bod gweithredoedd a chamau gweithredu gan Heddlu Gwent a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn gyfreithlon ac yn deg, o dan y chwe maes canlynol:

- Stopio a Chwilio a Defnyddio Grym
- Hyder cymunedol yn y defnydd o bwerau'r heddlu
- Pobl agored i niwed yn y ddalfa
- Cwynion gan y cyhoedd
- Boddhad y cyhoedd
- Tryloywder

Yn y maes gwrth-hiliaeth, mae Heddlu Gwent yn canolbwyntio ar gyflawni'r gweithredoedd yn y tri chynllun, yr ydym wedi eu cyfuno yn gynllun cyffredinol - Cynllun Gwrth-hiliaeth Gwent:

- Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu
- Cynllun Gwrth-hiliaeth y Gwasanaethau Cyfiawnder Troseddol
- Addewid gwrth-hiliaeth Llywodraeth Cymru

Mae meysydd canolbwyntio pob un o'r cynlluniau hyn yn cyd-fynd yn gyffredinol ag amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd: datblygu gweithlu cynrychioliadol a chymhwysedd diwylliannol (i weld cynnydd, ewch i Amcan Pedwar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd, cyfreithlondeb a thegwch (Amcan Dau'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd), ymgysylltu â'r gymuned (Amcan Tri'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd), ac amddiffyn pobl rhag casineb ac erledigaeth (Amcan Un y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd).

CYNNYDD A WNAED YN ERBYN AMCAN DAU YN 2023-24

O ran y ddalfa a phwerau gorfodol (stopio a chwilio, defnyddio grym) mae cynnydd da wedi cael ei wneud yn sicrhau craffu annibynnol ar y meysydd hyn. Mae Heddlu Gwent yn cynnal cyfarfodydd craffu bob tri mis, y mae arweinwyr gweithredol, yr arweinydd Cydraddoldeb,



Amrywiaeth a Chynhwysiant, Swyddfa'r Comisiynydd ac aelodau o'r Grŵp Cynghori Annibynnol yn bresennol ynddynt, lle craffir ar ein data yn ymwneud â phwerau gorfodi'r heddlu a lle gellir esbonio neu wneud argymhellion, a diwygio unrhyw anghymesuredd, yn unol ag egwyddorion Adolygiad Lammy[3]. Y nodweddion gwarchodedig y craffir arnynt yn benodol yw oedran, rhywedd a hil.

Ar gyfer stopio a chwilio, chwarter 4 2023/24:

- Cyfradd Anghymesuredd o ran Hil Heddlu Gwent yw 1.1, sy'n golygu bod pobl o gefndir treftadaeth ethnig tua 1.1 gwaith yn fwy tebygol o gael eu stopio a chwilio na pherson Gwyn Prydeinig
- Oedran canolrifol unigolion a gafodd eu stopio oedd 25
- Mae defnydd o Fideo Camera Corff gan swyddogion sy'n stopio a chwilio wedi codi i 96.6%.

Ar gyfer defnyddio grym, chwarter 4 2023/24:

- Roedd 10.3% o bobl y defnyddiwyd grym yn eu herbyn o grŵp treftadaeth ethnig[4], sy'n uwch na chanran y boblogaeth sydd o dreftadaeth ethnig (8.6%).
- Y gyfradd anghymesuredd gyffredinol o ran hil ar gyfer pobl o dreftadaeth ethnig yw 1.2, ond mae uchaf ymysg pobl Ddu (4.8) ac isaf ymysg pobl o ethnigrwydd arall (0.3).
- Roedd y rhan fwyaf o unigolion y defnyddiwyd grym yn eu herbyn rhwng 18 a 34 oed.
- Y dacteg a ddefnyddiwyd fwyaf ar draws pob un o'r grwpiau ethnig a'r rhan fwyaf o grwpiau oedran (ar wahân i 65+ oed) oedd Gefynnu Ufudd.
- Defnyddiwyd Taser[5] 107 o weithiau, 92 gwaith ar bobl wyn dan amheuaeth ac 14 gwaith ar bobl o dreftadaeth ethnig dan amheuaeth. Nid oedd ethnigrwydd un person yn hysbys.

O ran y ddalfa:

- Roedd 5.7% o bobl a gymerwyd i'r ddalfa yn bobl 11-17 oed
- Roedd 84.8% o bobl a gymerwyd i'r ddalfa yn wrywaidd a 14.9% yn fenywaidd

[3] Lammy review: final report - GOV.UK (www.gov.uk)
[4]Mae'r term yma'n dynodi unrhyw un y mae ei ethnigrwydd yn cael ei gofnodi fel Du, Asiaidd, Cymysg neu Gwyn Arall. O ran stopio a chwilio, mae ethnigrwydd yn cael ei ddiffinio gan yr unigolyn sy'n cael ei stopio; o ran defnyddio grym, mae ethnigrwydd yn cael ei ddiffinio gan y swyddog heddlu.
[5]Mae defnyddio Taser yn cynnwys, tynnu, dot coch, ac anelu'r Taser, yn ogystal â thanio.



- Roedd 12.7% o bobl o dreftadaeth ethnig leiafrifol
- Y gyfradd anghymesuredd o ran hil gyffredinol yn y ddalfa i bobl o grŵp treftadaeth ethnig yw 1.6

Mae ein Grŵp Cynghori Annibynnol (GCA) yn gweithredu fel "ffrind beirniadol" i Heddlu Gwent. Mae'r GCA yn cynrychioli cymunedau amrywiol Gwent, ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig, ac mae'n ddolen allweddol rhwng Heddlu Gwent a'r cyhoedd. Mae'n cyfarfod bob tri mis, yn mynychu grwpiau craffu fel y trafodwyd uchod, ac mae aelodau hefyd yn aelodau o'r Panel Apeliadau Fetio a'r Pwyllgor Moeseg. Pan fydd digwyddiadau difrifol yn digwydd ac mae tensiynau yn y gymuned yn cynyddu neu disgwylir iddynt gynyddu, bydd uwch swyddogion yn cysylltu â'r GCA, gan hwyluso llif gwybodaeth o Heddlu Gwent i'r gymuned ac o'r gymuned i Heddlu Gwent.

Mae Heddlu Gwent wedi sefydlu panel apeliadau fetio sy'n cynrychioli pob nodwedd warchodedig ac sy'n cynnwys y GCA ac aelodau o'r rhwydweithiau staff. Mae hyn yn sicrhau bod swyddogion a staff gyda nodweddion gwarchodedig yn cael eu cynrychioli yn y broses apeliadau fetio, yn ogystal â chynnwys lleisiau rhanddeiliaid cymunedol amrywiol.

Mewn perthynas â gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch sut i gwyno, ar hyn o bryd mae Heddlu Gwent yn dangos pob dull o riportio anfodlonrwydd neu broblemau ymddygiad ar bob platfform digidol i'r cyhoedd, yn ogystal ag yn y wybodaeth a ddarperir i ddioddefwyr trosedd.

Caiff boddhad y cyhoedd ei fesur bob tri mis trwy gyfrwng yr arolwg o foddhad y cyhoedd ac mae'r canlyniadau'n cael eu rhannu gyda'r Bwrdd Pobl a Diwylliant er mwyn llywodraethu'r maes yma. Mae'r canlyniadau diweddaraf - Ebrill 2024 - ar gyfer tri mis olaf 2023-24 yn dangos:

- Y lefel boddhad cyffredinol oedd 44.8% (gostyngiad o 6% ers y canlyniad blaenorol)
- O ran tegwch, roedd 63% o'r farn bod Heddlu Gwent yn defnyddio pwerau'n briodol
- Roedd 63% hefyd o'r farn bod Heddlu Gwent yn trin pawb yn deg, pwy bynnag ydyn nhw
- Pan ddefnyddir grym, roedd 56% o'r farn ei fod yn cael ei ddefnyddio'n deg
- Roedd 45% yn cytuno bod pwerau stopio a chwilio yn cael eu defnyddio'n deg
- Roedd 67.4% o breswylwyr a gymerodd ran yn yr arolwg yn ymddiried yn Heddlu Gwent
- Roedd 46.2% o'r farn bod cwynion yn erbyn Heddlu Gwent yn cael eu trin yn deg.

MEYSYDD Y NODWYD Y MAE ANGEN EU GWELLA

Rydym yn cydnabod diffyg o ran cynnwys lleisiau pobl ifanc mewn craffu annibynnol, gan nad yw ein Grŵp Cynghori Annibynnol yn cynnwys cynrychiolaeth gan bobl dan 18 oed ar hyn o bryd. Er mwyn rhoi sylw i hyn, mae'r arweinydd cydraddoldeb, amrywiaeth a

chynhwysiant yn gweithio gyda Swyddfa'r Comisiynydd a chydweithwyr eraill i ddatblygu cynigion ar gyfer Grŵp Cynghori Annibynnol pwrpasol ar gyfer ieuenctid.

O ran gwarediadau y tu allan i'r llys, ychwanegwyd mesur newydd i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd, i ddeall unrhyw ragfarn ddiarwybod sy'n arwain at ganlyniadau anghyfartal sy'n golygu bod pobl o gefndir amrywiol yn llai tebygol o gael cynnig llwybr dargyfeiriol oddi wrth y broses cyfiawnder troseddol. Mae'r gwaith yma'n mynd rhagddo trwy gyfrwng Cynllun Gwrth-hiliaeth y Gwasanaethau Cyfiawnder Troseddol.

O ran cwynion, mae cynlluniau ar waith i ddatblygu negeseua rhagweithiol ar draws cymunedau Gwent, gan gynnwys gweithio gyda Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC). Rydym eisiau sicrhau hefyd bod gwaith cofnodi data yn gweithio ar draws nodweddion gwarchodedig i hwyluso monitro ac adolygu darpariaeth gwasanaeth yn effeithiol. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys dadansoddi'r ymatebion yn yr arolwg boddhad y cyhoedd yn ôl gwahanol nodweddion gwarchodedig.

AMCAN TRI | MYNEDIAD, YMGYSYLLTU, A CHYDLYNIANT

32 MESUR	3 MESUR	1 MESUR
Mesurau naill ai wedi'u darparu neu'n cael eu rheoli'n gyson trwy swyddogaethau busnes fel arfer	Mesurau'n parhau i gael eu datblygu gyda darpariaeth arfaethedig	Mesurau heb eu cyflwyno eto

Mae'r ffordd y mae'r heddlu'n ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ac aelodau'r gymuned yn rhan annatod o blismona trwy gydsyniad. Mae'r amcan cydraddoldeb yma'n ystyried:

- mynediad at wasanaethau plismona a gwybodaeth
- gweithio gyda phartneriaid
- cynhwysiant a chydlyniant cymunedol
- ymgysylltu â'r gymuned
- plant a phobl ifanc
- mynediad at wasanaethau i ddioddefwyr

CYNNYDD A WNAED YN ERBYN AMCAN TRI YN 2023-24:

Mae mesurau addas ar waith i alluogi pobl anabl i gyrchu gwasanaethau (er enghraifft, arwyddion Braille, dogfennau print mawr, gwasanaethau BSL yn yr ystafell gyswllt a rheoli, cyfleusterau toiledau hygyrch mewn gorsafoedd heddlu).

Mae Heddlu Gwent yn defnyddio mwy o sianelau digidol fel Facebook i gysylltu â'r cyhoedd, ac yn buddsoddi er mwyn galluogi mwy o gyswllt â'r cyhoedd trwy ddulliau digidol - er enghraifft, X, Instagram a Facebook. Mae hyn yn gwella hygyrchedd yn ogystal â rhoi mwy o gyfle i aelodau'r cyhoedd rannu sylwadau gyda'r heddlu.

Ar ôl ymgysylltu â chymunedau Gwent a chynnal ymgynghoriad mewnol, mae Ystafell Gyswllt a Rheoli'r Heddlu wedi rhoi nodwedd 'galw yn ôl' ar waith sy'n helpu i leihau pwysau ar berfformiad galwadau ac yn bodloni disgwyliadau aelodau'r cyhoedd yn well.

Yn rhan o'n gwaith strategol i fynd i'r afael â hiliaeth a ffurfiau eraill ar wahaniaethu ac anghymesuredd, mae cynrychiolwyr o'r adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Gweithredu Cadarnhaol, a Dysgu a Datblygu yn bresennol mewn gweithgorau traws sector, gan gynnwys:

- Bwrdd Trosedd Casineb a Thensiynau Cymunedol (Llywodraeth Cymru)
- Tasglu gwrth-hiliaeth y Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol, ffrwd gwaith cynrychioli gweithlu (sector cyfiawnder troseddol Cymru gyfan)

- Panel trosedd casineb (Gwasanaeth Erlyn y Goron)

Mae hyn yn golygu gwaith partner gyda chynrychiolwyr cymunedau lleol, cydweithwyr yn y maes plismona, a phartneriaid sector cyhoeddus, i wella canlyniadau i bobl o gefndiroedd wedi'u hymyleiddio a sicrhau bod Heddlu Gwent yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Gynllun Gweithredu Hil yr Heddlu, cynllun gwrth-hiliaeth Llywodraeth Cymru a dogfennau allweddol eraill. Mae'r tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cwrdd â phartneriaid cydlyniant cymunedol yr awdurdod lleol hefyd i rannu gwybodaeth am ardaloedd lle ceir tensiwn neu droseddau casineb sy'n effeithio ar gymunedau wedi'u hymyleiddio.

Y llynedd, nododd y tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ddyddiadau diwylliannol allweddol sydd o bwys i gymunedau amrywiol Gwent. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mis Pride – presennol mewn digwyddiadau Pride ledled Gwent (Torfaen, Caerffili, Y Fenni, Pride Cymru, Pride in the Port) i ddathlu ac ymgysylltu â'r gymuned LHDTC+
- Mis treftadaeth de Asiaidd - aethant â chydweithwyr i ymweld â mannau addoli o bwys i'r gymuned de Asiaidd, hwyluso digwyddiadau dillad diwylliannol mewn gorsafoedd heddlu ledled Gwent wedi'u cynnal gan fenywod o'r gymuned de Asiaidd.
- Mis Hanes Pobl Dduon - presennol mewn digwyddiadau i gydnabod y genhedlaeth Windrush i feithrin cysylltiadau gyda'n cymunedau Du lleol, a danfon bwyd i hynafiaid Windrush
- Mis Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb - cynnal sioeau teithiol gyda chydweithwyr plismona ledled Gwent i hybu ymwybyddiaeth o beth yw troseddau casineb a sut i riportio troseddau casineb
- Ramadan - presennol yn yr Iftar (y pryd sy'n torri'r ympryd dyddiol) mewn mosgiau ledled Gwent a rhoi rhodd o fwyd yn y mosgiau.

Gwnaethom fynd i ddigwyddiadau ymgysylltu â chymunedau hefyd a chynnal cyfarfodydd gyda'n cymunedau, gan gynnwys:

- Hwyluso cyfarfodydd bob tri mis rhwng Heddlu Gwent ac arweinwyr mosgiau yng Nghasnewydd
- Cynnal gweithdai mewn ysgolion a gyda grwpiau LHDTC+ ynghylch gwrth-hiliaeth ac ymwybyddiaeth o droseddau casineb
- Mynychu cynadleddau a digwyddiadau a gynhelir gan grwpiau gan gynnwys y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr, hynafiaid Windrush, aelodau o'r gymuned de Asiaidd a Menywod Casnewydd (Women of Newport)
- Arolwg ymgysylltu â'r cyhoedd yn rhan o ddatblygiad Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu, gyda rhanddeiliaid o gymunedau amrywiol Gwent.

MEYSYDD Y NODWYD Y MAE ANGEN EU GWELLA

Fel y trafodwyd uchod, nodwyd bod angen caniatáu i blant a phobl ifanc gymryd rhan weithredol yn y gwaith o lywodraethu a chraffu ar weithredoedd a data Heddlu Gwent. Bydd hyn yn cael sylw trwy gyfrwng Grŵp Cynghori Annibynnol Ieuenctid.

Y cam gweithredu arall sydd heb ei gwblhau yn y maes yma o Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd 2020-24 yw bod y tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a'r tîm Datrys Problemau yn cydweithio i asesu effeithiolrwydd gweithgareddau ymgysylltu gyda chymunedau amrywiol / wedi ymddieithrio yn defnyddio dull 'dywedoch chi, gwnaethom ni'.

AMCAN PEDWAR | CREU GWEITHLU CYNRYCHIOLIADOL A HYRWYDDO TEGWCH

20 MESUR	6 MESUR	0 MESUR
Mesurau naill ai wedi'u darparu neu'n cael eu rheoli'n gyson trwy swyddogaethau busnes fel arfer	Mesurau'n parhau i gael eu datblygu gyda darpariaeth arfaethedig	Mesurau heb eu cyflwyno eto

Mae adeiladu gweithlu sy'n cynrychioli cymunedau Gwent yn rhan annatod o feithrin ymddiriedaeth a hyder, yn ogystal â datblygu diwylliant sy'n hyrwyddo gwahaniaeth. Mae ein hamcanion yn y maes hwn yn cynnwys:

- gweithredu cadarnhaol
- cydraddoldeb rhwng y rhywiau
- lles yn y gweithle
- gwaith ymgysylltu â staff
- addysg a hyfforddiant
- amddifadedd economaidd-gymdeithasol

CYNNYDD A WNAED YN ERBYN AMCAN TRI YN 2023-24:

Gweithlu Cynrychioliadol

Mae Heddlu Gwent wedi gwneud cynnydd da yn erbyn ein strategaeth Gweithredu Cadarnhaol wrth recriwtio a chadw gweithlu mwy amrywiol. Eleni, gweithiodd y tîm Gweithredu Cadarnhaol gyda phartneriaid yn y maes llywodraeth leol, darparwyr addysg a Gyrfa Cymru i hyrwyddo gyrfaoedd mewn plismona i bobl o grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli ddigon, gan gynnwys y rheini o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel.

Mae ein proses recriwtio wedi cael ei archwilio'n allanol gan OLEEO, mae gwaith creu rhestr fer yn digwydd yn anhysbys ac mae adborth ar gael i ymgeiswyr. Mae set o addasiadau rhesymol mewn lle ar gyfer pobl y mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn berthnasol iddynt sy'n mynd trwy'r broses recriwtio a dyrchafu, fel amser ychwanegol ar gyfer atebion neu ffont a lliw penodol ar gyfer papur arholiad.

Mae map trywydd cadw wedi cael ei ddatblygu gyda chynllun gweithredu i wella gwaith o ran cadw swyddogion a staff ar draws y sefydliad ac mae Cyfweliadau Aros wedi cael eu rhoi ar waith i wella cadw ymhellach. Cafodd y Polisi Dyrchafu ei adolygu gan ein tîm Adnoddau Dynol hefyd yn seiliedig ar adborth gan fyrddau dyrchafu a nododd bod angen gwella'r meysydd canlynol:

- y broses apelio
- adborth yn dilyn llunio rhestr fer a chyfweld
- cynlluniau datblygu yn dilyn byrddau dyrchafu.

Mae'r fframwaith arweinyddiaeth yn cynnig cyfle i swyddogion a staff ddatblygu gyrfa. Er enghraifft, cynigir y rhaglen Rheolwyr Llinell Cyntaf i bob rhingyll sydd newydd gael dyrchafiad, ynghyd ag aelodau staff cyfatebol. Mae'r broses adolygu a datblygu perfformiad yn galluogi swyddogion a staff i dynnu sylw rheolwyr at anghenion hyfforddiant.

Gweithiodd Adnoddau Dynol gyda'r adran Cyfathrebu Corfforaethol ar 'Ymgyrch Diogel Dweud' i annog pawb i rannu eu nodweddion gwarchodedig, i wella dibynadwyedd data wrth edrych ar ddemograffeg ein gweithlu. Mae'r cyfraddau wedi lleihau, er eu bod yn dal ar eu huchaf ar gyfer y cwestiynau am gyfeiriadedd rhywiol ac anabledd, fel y gellir gweld yn y dadansoddiad o ddemograffeg ein gweithlu isod (cywir ar 31 Mawrth 2024).

Categori		**Swyddog Heddlu**		**Staff Heddlu**		**Swyddog Cefnogi Cymuned (SCC)**		**Cyfanswm**	
		Trosedd Casineb	**%**	**Trosedd Casineb**	**%**	**Trosedd Casineb**	**%**	**Trosedd Casineb**	**%**
Rhywedd	Benyw	582	37.82%	581	67.95%	73	47.71%	1236	48.53%
	Gwryw	957	62.18%	274	32.05%	80	52.29%	1311	51.47%
Cyfanswm		1539	100%	855	100%	153	100%	2547	100%
Oedran	Dan 26 oed	204	13.26%	50	5.85%	23	15.03%	277	10.88%
	26 i 40	762	49.51%	287	33.57%	70	45.75%	1119	43.93%
	41 i 55	536	34.83%	314	36.73%	40	26.14%	890	34.94%
	55 a hŷn	37	2.40%	204	23.86%	20	13.07%	261	10.25%
Cyfanswm		1539	100%	855	100%	153	100%	2547	100%
Ethnigrwydd	Treftadaeth Ethnig	56	3.64%	18	2.11%	13	8.50%	87	3.42%
	Heb ei ddatgan/Anhysbys	5	0.32%	3	0.35%	0	0.00%	8	0.31%
	Ddim am ddweud	60	3.90%	25	2.92%	2	1.31%	87	3.42%
	Gwyn	1418	92.14%	809	94.62%	138	90.20%	2365	92.85%
Cyfanswm		1539	100%	855	100%	153	100%	2547	100%
Cyfeiriadedd Rhywiol	Deurywiol	48	3.12%	9	1.05%	1	0.65%	58	2.28%
	Hoyw/Lesbiaidd	70	4.55%	22	2.57%	4	2.61%	96	3.77%



	Heb ei ddatgan/Anhysbys	73	4.74%	37	4.33%	34	22.22%	144	5.65%
	Cyfeiriadedd Rhywiol arall	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%
	Ddim am ddweud	121	7.86%	56	6.55%	4	2.61%	181	7.11%
	Gwell ganddynt hunan-ddisgrifio	3	0.19%	0	0.00%	0	0.00%	3	0.12%
	Heterorywiol	1224	79.53%	731	85.50%	110	71.90%	2065	81.08%
Cyfanswm		1539	100%	855	100%	153	100%	2547	100%
Anabledd	Na	1322	85.90%	737	86.20%	143	93.46%	2202	86.45%
	Heb ei ddatgan/Anhysbys	3	0.19%	0	0.00%	0	0.00%	3	0.12%
	Ddim am ddweud	114	7.41%	52	6.08%	7	4.58%	173	6.79%
	Wedi datgan yn anabl	100	6.50%	66	7.72%	3	1.96%	169	6.64%
Cyfanswm		1539	100%	855	100%	153	100%	2547	100%
Gallu yn y Gymraeg	Heb ei ddatgan/Anhysbys	23	1.49%	9	1.05%	0	0.00%	32	1.26%
	Cymraeg - Lefel 1	1301	84.54%	764	89.36%	135	88.24%	2200	86.38%
	Cymraeg - Lefel 2	89	5.78%	47	5.50%	8	5.23%	144	5.65%
	Cymraeg - Lefel 3	11	0.71%	1	0.12%	2	1.31%	14	0.55%
	Cymraeg - Lefel 4	42	2.73%	12	1.40%	4	2.61%	58	2.28%
	Cymraeg - Lefel 5	32	2.08%	10	1.17%	1	0.65%	43	1.69%
	Cymraeg - Dim sgiliau	41	2.66%	12	1.40%	3	1.96%	56	2.20%
Cyfanswm		1539	100%	855	100%	153	100%	2547	100%

Yn ogystal â pharatoi adroddiad ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, mae Heddlu Gwent yn llunio adroddiad ar ein bwlch cyflog o ran ethnigrwydd hefyd yn awr. Yn gyffredinol, y bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau yw 7.7% a'r bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau yw 12.%. Ar gyfer y bwlch cyflog o ran ethnigrwydd, y ffigyrau yw 3.45% a 4.17% yn eu tro.

Lles a chymorth

Mae tîm lles yn Heddlu Gwent sy'n rhoi cymorth i gydweithwyr ledled yr heddlu mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys:

- Mynediad at gymorth corfforol ac emosiynol i staff a'u rheolwyr
- Pasbortau lles

- Cymorth gyda mynediad at ddiagnosis a darpariaeth arbenigol i swyddogion a staff niwroamrywiol

Yn 2023-24 ymunodd Heddlu Gwent â'r cynllun iechyd Benenden Health sy'n galluogi cydweithwyr i gyrchu gofal iechyd preifat trwy raglen aberthu cyflog.

Darperir cymorth penodol a chymuned gefnogol i gydweithwyr gyda nodweddion gwarchodedig gan ein rhwydweithiau staff:

- Cymdeithas Gristnogol yr Heddlu (crefydd)
- Enable (anabledd, niwroamrywiaeth a gofalwyr)
- Rhwydwaith Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau a'r Fforwm Iechyd Dynion (rhywedd/rhyw, beichiogrwydd a mamolaeth)
- Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Gwent (GEMA) (hil)
- Cangen Gwent o rwydwaith LHDT+ Heddlu Cymru (cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd)
- Rhwydwaith Siaradwyr a Dysgwyr Cymraeg (Y Gymraeg)

Mae Heddlu Gwent yn cynnal arolwg blynyddol o les staff ar gyfer pob swyddog ac aelod staff. Cyflwynodd y tîm Adnoddau Dynol ganfyddiadau'r arolwg yma i gydweithwyr ym mis Ionawr 2024, a datblygodd becyn cymorth i helpu penaethiaid adrannau i ddehongli'r canlyniadau a datblygu cynlluniau gweithredu i wella lles yn eu timau.

Dyma oedd canfyddiadau'r arolwg mwyaf diweddar:

- Roedd 88% [6] o ymatebwyr yn teimlo eu bod yn cael eu trin gyda pharch gan eu cydweithwyr
- Roedd 88% yn teimlo y byddent yn gallu herio ymddygiad amhriodol
- Roedd 84% yn teimlo bod Heddlu Gwent wedi ymroi i greu diwylliant cynhwysol yn y gweithle
- Roedd 82% yn teimlo eu bod yn gallu bod yn nhw eu hunain yn y gweithle
- Roedd 79% yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn deg

Rydym wedi gwneud gwaith pwysig yn adnabod cyfleoedd i roi cymorth pwrpasol i swyddogion a staff gyda nodweddion gwarchodedig hefyd, a sicrhau bod gan reolwyr y sgiliau a'r hyder i roi cymorth i weithlu amrywiol.

Ar gyfer swyddogion a staff sy'n fenywaidd, anabl, a/neu o gefndir treftadaeth ethnig, mae'r tîm Gweithredu Cadarnhaol yn rhoi cymorth iddyn nhw trwy gydol eu gyrfa. Mae'r tîm Gweithredu Cadarnhaol yn cynnal sesiynau gyda'r swyddogion a staff yma bob chwe wythnos, bob chwe mis a bob 12 mis er mwyn cael adborth cyfrinachol ganddynt i'w rannu

[6] Mae'r ffigyrau yma'n dangos canran yr ymatebwyr a atebodd "cytuno'n gryf" neu "cytuno"

gyda'r timau perthnasol. Mae'r tîm Gweithredu Cadarnhaol yn rhoi cymorth i'r rheini sy'n ceisio dyrchafiad hefyd.

Mae'r rhaglen Rheolwyr Llinell Cyntaf yn rhoi cyngor ar sut gall rheolwyr gefnogi staff o wahanol gefndiroedd - er enghraifft, trwy fodiwl ar reoli gweithlu sy'n pontio'r cenedlaethau. Mae timau wedi datblygu eu hyfforddiant eu hunain hefyd: er enghraifft, mae'r tîm tiwtoriaid cwnstabliaid heddlu wedi datblygu cyflwyniad ardderchog i helpu i ddysgu cwnstabliaid sut i roi cymorth i swyddogion niwroamrywiol dan hyfforddiant pan fyddant yn ymuno â'u timau newydd.

Datblygu polisïau

Yn 2023-24, datblygodd Heddlu Gwent Bolisi Cynhwysiant Trawsrywedd newydd a fydd yn amddiffyn hawliau unigolion traws ac anneuaidd a sicrhau bod y sefydliad yn gweithredu yn unol â deddfwriaeth ac arfer gorau.

Mae Heddlu Gwent yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd, sy'n cydnabod ein hymrwymiad i sut rydym yn recriwtio, cadw a datblygu pobl anabl.

Mae'r broses Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei wreiddio yn y sefydliad, ac mae'n ofynnol bod pob polisi newydd neu bolisi sy'n cael ei adnewyddu yn dangos sut y gallai effeithio ar bobl gyda nodweddion gwarchodedig neu feithrin perthnasoedd da rhwng pobl gyda nodweddion gwarchodedig a phobl heb nodweddion gwarchodedig.

Hyfforddiant

Mae Heddlu Gwent yn darparu amrywiaeth o hyfforddiant i'n galluogi ni i fynd i'r afael â gwahaniaethu a rhoi gwell cymorth i'n cydweithwyr a'n cymunedau gyda nodweddion gwarchodedig. Mae pob swyddog ac aelod staff newydd yn derbyn hyfforddiant dechreuol gan y tîm cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar bynciau yn cynnwys deddfwriaeth, amrywiaeth Heddlu Gwent ac awgrymiadau ar gyfer bod yn gynhwysol yn ymarferol. Mae pob swyddog ac aelod staff hefyd yn cwblhau pecyn dysgu ar-lein Y Coleg Plismona ar Y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Rhannodd y tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wybodaeth am bynciau perthnasol gyda'r gweithlu ehangach trwy erthyglau ar Y Bît hefyd. Yn 2023-24, roedd pynciau'n cynnwys etifeddiaeth Stephen Lawrence, mis Pride, mis Sipsiwn, Roma a Theithwyr a diwrnod Windrush.

Yn 2023-24, derbyniodd 1526 o swyddogion a staff hyfforddiant ar hiliaeth a bod yn wrth-hiliol, a gafodd ei gynnal gan No Bounderies.

Mae Heddlu Gwent yn mynychu cyfarfodydd tasglu gwrth-hiliaeth y Gwasanaethau Cyfiawnder Troseddol bob tri mis, lle rydym yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws y sector cyfiawnder troseddol yng Nghymru i ddysgu yn sgil ein gwaith gwrth-hiliol a datblygu arfer gorau gyda'n gilydd. Yn 2023-24, cymerodd Heddlu Gwent ran mewn rhaglen beilot wrth-hiliol a ddatblygwyd gan ymchwilwyr yn gweithio gyda thasglu gwrth-hiliaeth y Gwasanaethau Cyfiawnder Troseddol, a meincnodwyd ein dysgu a datblygu presennol a'n rhaglenni Gweithredu Cadarnhaol. Bydd yr hyn a ddysgwyd yn ein galluogi ni i wella ein haddysg gwrth-hiliaeth i swyddogion a staff Heddlu Gwent.

MEYSYDD Y NODWYD Y MAE ANGEN EU GWELLA

Rydym yn bwriadu datblygu ac ymwreiddio mwy o bwyslais ar gydraddoldeb wrth recriwtio gwirfoddolwyr ac aelodau annibynnol, er enghraifft aelodau ein Grŵp Cynghori Annibynnol.

Ar hyn o bryd, nid oes gennym ni rwydwaith yn cynnwys y nodwedd warchodedig Oedran, ond mae cynlluniau ar waith i sefydlu rhwydwaith ar gyfer cydweithwyr iau sy'n gwasanaethu.

Rhaid i ni barhau i wella ein gwaith cofnodi data, ac annog swyddogion a staff i rannu eu nodweddion gwarchodedig i alluogi monitro data ein gweithlu'n fwy cywir a lleihau nifer yr atebion "ddim am ddweud".

Rydym yn gwybod eisoes bod gwaith i'w wneud o hyd i hyrwyddo diwylliant heddlu cadarnhaol. Mewn ymateb i'r pwyslais presennol yn y maes yma, mae Heddlu Gwent wedi datblygu Strategaeth Diwylliant sy'n amlinellu sut byddwn yn rhoi sylw i bryderon diwylliannol. Gwnaethom groesawu'r Farwnes Louise Casey i ddigwyddiad Tîm Gwent yn 2023-24, lle bu'n trafod canfyddiadau ei hymchwiliad i ddiwylliant yr Heddlu Metropolitanaidd a'i oblygiadau i blismona. Gwnaethom gomisiynu ymchwil ar ddiwylliant Heddlu Gwent gan Brifysgol De Cymru hefyd, a fydd yn cael ei ddatblygu yn becyn hyfforddiant i swyddogion a staff yn defnyddio "Hydra" Prifysgol De Cymru.

CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2024 - 2028

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2024-2028) newydd wedi cael ei gyhoeddi ac mae ar gael i'r cyhoedd yma. Mae fersiwn Saesneg o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a chrynodeb haws ei ddarllen ar gael i'r cyhoedd hefyd.

Fel yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd blaenorol, mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ceisio amlinellu sut rydym yn bwriadu datblygu ein sefydliad yn y meysydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gan sicrhau ein bod yn bodloni ein rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Mae tair colofn allweddol yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 a thri amcan o dan bob colofn.

Yr amcanion hyn yw:

1. **Ein Sefydliad:**
    a. Byddwn yn gynrychioliadol: *Datblygu Heddlu Gwent i fod yn gynrychioliadol o'r cymunedau amrywiol rydym yn eu gwasanaethu a sicrhau bod cydweithwyr yn cael eu trin yn deg yn y gweithle*
    b. Byddwn yn ddiwylliannol gymwys: *Meithrin dealltwriaeth o brofiadau bywyd ein cymunedau a datblygu diwylliant lle mae pawb yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi am fod yn nhw eu hunain yn y gweithle*
    c. Byddwn yn herio gwahaniaethu yn ei holl ffurfiau: *Galluogi swyddogion a staff i herio gwahaniaethu ac ymddygiad gwael yn y gweithle, gan anelu at fod yn sefydliad gwrth-hiliaeth ac yn sefydliad sy'n gwrthwynebu casineb at fenywod*

2. **Ein cymunedau:**
    a. Bydd ein cymunedau'n teimlo'n ddiogel: *Sicrhau bod ein cymunedau'n cael eu trin mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma a bod troseddau sy'n effeithio ar y bobl fwyaf agored i niwed (troseddau casineb, trais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol) yn cael eu hymchwilio'n drwyadl ac yn destun craffu manwl*
    b. Bydd ein cymunedau'n ymddiried ynom ni: *Sicrhau bod ein cymunedau amrywiol yn cael eu trin yn deg trwy wella ein cymhwysedd diwylliannol ein hunain a chraffu ar ein defnydd o bwerau'r heddlu*
    c. Bydd ein cymunedau'n ymgysylltu â ni: *Ymrwymo i ymgysylltu rheolaidd gyda gwahanol gymunedau Gwent, gwneud y gymuned yn rhan o'n penderfyniadau wrth i ni "blismona trwy gydsyniad"*

3. **Ein partneriaethau a'n cynlluniau:**
    a. Byddwn yn bodloni ein rhwymedigaethau o dan gynlluniau plismona cenedlaethol a chynlluniau'r llywodraeth yn y meysydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant: *Gwella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y gwasanaeth heddlu ac yn ein cymunedau*
    b. Byddwn yn gweithio gyda'n cydweithwyr plismona: *Rhannu gwybodaeth ac arfer gorau ar draws y sector cyfiawnder troseddol*

c. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid cymunedol mewn sectorau eraill: *Deall ac ymateb i broblemau sy'n effeithio ar ein cymunedau'n lleol*

Nid yw Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 yn gynllun ar y cyd â Swyddfa'r Comisiynydd mwyach. Gwnaed penderfyniad i wahanu ein cynlluniau er mwyn galluogi'r ddau sefydliad i ddatblygu cynllun sy'n adlewyrchu'n well y gwaith gwahanol rydym yn ei wneud.

Cafodd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ei lywio gan waith ymchwil ac ymgynghoriad gyda'r cyhoedd. Roedd y gwaith yma'n cynnwys:

- Mapio gofynion yr heddlu o dan bob cynllun plismona a chynllun llywodraeth cenedlaethol i sicrhau bod pob rhwymedigaeth yn cael ei bodloni (er enghraifft, Cynllun Gweithredu ar Hil yr Heddlu, Cynllun Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru)
- Cynnwys cwestiynau i'r cyhoedd am eu prif flaenoriaethau cysylltiedig â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn arolwg blynyddol praesept Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
- Cyflwyno drafft o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol i Grŵp Cynghori Annibynnol Heddlu Gwent ac arweinwyr rhwydweithiau staff i gael adborth ganddynt cyn creu fersiwn derfynol y Cynllun.

Bydd Cynllun 2024-2028 yn cael ei ategu gan gynllun cyflawni a fydd yn amlinellu'r camau gweithredu disgwyliedig er mwyn cyflawni ein hamcanion. Bydd y Cynllun yn cael ei lywodraethu gan y cyfarfod Cyfreithlondeb, a bydd amcanion yn cael eu rhannu gyda'r bwrdd Pobl a Diwylliant, a'r byrddau VAWG a Bregusrwydd.

YSTYRIAETHAU

YSTYRIAETHAU ARIANNOL

Mae'n bosibl y bydd gweithgareddau o dan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd yn mynd i gostau: er enghraifft, gweithgareddau ymgysylltu yn y gymuned, hyfforddi a datblygu staff, mynd i gynadleddau, a gweithgareddau eraill a hwylusir gan grwpiau allanol sy'n ein galluogi ni i gyflawni ein hamcanion yn unol â'r cynllun.

Cynigir bod y rhain yn cael eu talu gan ddeiliad y gyllideb berthnasol (er enghraifft, byddai costau hyfforddi staff yn cael eu talu gan y tîm Dysgu a Datblygu, ymgysylltu yn y gymuned gan y tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant) a ble y bo angen, bydd cyd-gynhyrchu gyda sefydliadau eraill (fel gwaith o dan gynllun gwrth-hiliaeth y Gwasanaethau Cyfiawnder Troseddol) yn helpu i leihau costau.

YSTYRIAETHAU O RAN PERSONÉL

Mae'r camau gweithredu arfaethedig o dan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd wedi cael eu neilltuo i arweinwyr ar gyfer pob un o'r meysydd portffolio mewn cynllun cyflawni cysylltiedig. Yr arweinydd portffolio sy'n gyfrifol am sicrhau bod y camau gweithredu yn eu maes yn cael eu dyrannu i'r tîm/person cywir, ac am adrodd ar gynnydd yn erbyn y camau hyn yn y cyfarfod Cyfreithlondeb sy'n llywodraethu cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun.

Ni ddisgwylir y bydd angen unrhyw adnoddau pellach i gyflawni'r nodau ac amcanion yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei adolygu trwy gydol oes y Cynllun.

YSTYRIAETHAU CYFREITHIOL

Dim i'w nodi. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

YSTYRIAETHAU CYDRADDOLDEB A HAWLIAU DYNOL

Wrth baratoi'r adroddiad yma rhoddwyd ystyriaeth i'r ddyletswydd gyffredinol i hybu cydraddoldeb, fel y nodir yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd ac aseswyd nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grŵp penodol.

Wrth baratoi'r adroddiad yma, rhoddwyd ystyriaeth i ofynion yr erthyglau a gynhwysir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998.

RISG

Gwnaed cynnydd cadarnhaol yn erbyn Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd 2020-24, fel y manylir yn yr adroddiad yma. Nodir meysydd y mae angen eu gwella uchod ac os na roddir sylw iddynt, gallent beri risg i ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn Heddlu Gwent.

Mae'r camau gweithredu hyn nad ydynt wedi cael eu cyflawni eto yn cael sylw trwy'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ochr yn ochr â'n nodau ac amcanion newydd ac, os caiff camau gweithredu eu datblygu, mae'r risg yn isel. Caiff cynnydd yn erbyn camau gweithredu ei fesur yn y cyfarfod Cyfreithlondeb a gynhelir bob tri mis, sydd yn ei dro yn cyfrannu at y bwrdd Diwylliant yn rhan o'r strwythur Llywodraethu.

BUDD Y CYHOEDD

Wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn, a roddwyd ystyriaeth i 'hyder y cyhoedd'?

Do

Ydy cynnwys, sylwadau ac atodiadau'r adroddiad hwn yn angenrheidiol ac yn addas ar gyfer y cyhoedd?

Ydy

Os ydych chi'n credu nad yw'r adroddiad hwn yn addas ar gyfer y cyhoedd, nodwch y rhesymau dros hynny:

Ddim yn berthnasol

Effeithiau o ran Cyfryngau, Rhanddeiliaid a Chymuned:

Dylid ystyried cyfieithu'r adroddiad yma i'r ieithoedd mwyaf cyffredin a siaradir yng Ngwent, i alluogi ein cymunedau amrywiol i ddarllen am ein cynnydd yn y maes cydraddoldeb.

MANYLION YR ADRODDIAD

AWDUR YR ADRODDIAD

Harry Petty (Rheolwr Strategol Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant)

SWYDDOG HEDDLU SY'N ARWAIN

Dirprwy Brif Gwnstabl Nicola Brain

CYMERADWYAETH Y BWRDD LLYWODRAETHU A'R PRIF SWYDDOG

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r bwrdd canlynol:

Pobl a Diwylliant

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r bwrdd goruchwylio canlynol:

Bwrdd Gweithredol Diogelwch (SEB)

Yr wyf yn cadarnhau bod yr adroddiad hwn wedi cael ei drafod a'i gymeradwyo mewn cyfarfod ffurfiol o'r Prif Swyddogion.

Cadeirydd y cyfarfod:

Prif Gwnstabl Mark Hobrough

Dyddiad y cyfarfod:

15/08/2024

Yr wyf yn cadarnhau bod yr adroddiad hwn yn addas ar gyfer y cyhoedd.

Llofnod:



Dyddiad:

21/08/2024